Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# YSBRYDOLI CYMUNEDAU - CANLLAWIAU CYFLYM

## Beth i'w wneud ar ôl i chi dderbyn eich cynnig nawdd

- Sicrhewch eich bod yn cynnwys logo Ysbrydoli Cymunedau Llenyddiaeth Cymru ym mhob dogfen hyrwyddo a chyhoeddiad yn ymwneud â'r digwyddiad. Sylwch **na ddylid newid y logo mewn unrhyw ffordd**- dylid ei osod yn llorweddol ac yn glir (gwnewch yn siŵr bod digon o wrthgyferbyniad rhwng y logo a'r cefndir). Fe welwch fersiwn ansawdd uchel y gellir ei islwytho yma.
- Hysbysebwch eich digwyddiad yn ein hadran 'Digwyddiadau' ar wefan Llenyddiaeth Cymru. Rhestrwch eich digwyddiad yma.

## Beth i'w wneud yn ystod eich digwyddiad

- Nodwch pa mor hir mae'r awdur yn gweithio (mewn munudau)
- Nodwch nifer yn y gynulleidfa
- Cymerwch lun ansawdd uchel o'r digwyddiad (a'i anfon atom os ydych chi'n hapus i'w rannu gyda ni)
- Sicrhewch eich bod yn cydnabod cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru
- Mwynhewch!

## Beth i'w wneud yn dilyn eich digwyddiad

- Er mwyn hawlio y nawdd a ddyfarnwyd i chi gan Gronfa Ysbrydoli Cymunedau ar gyfer y digwyddiad, cwblhewch y ffurflen adborth **o fewn mis i'r digwyddiad**, a'i ebostio yn ôl atom: nawdd@llenyddiaethcymru.org
- Sicrhewch eich bod wedi ateb pob cwestiwn (peidiwch â defnyddio amcangyfrifon)
- Mae croeso I chi gynnwys unrhyw ddogfennaeth neu ffotograffau o'r digwyddiad rydych chi'n hapus i'w rhannu â ni yn eich ffurflen adborth.
- Dathlwch eich llwyddiant a chynlluniwch eich digwyddiad llenyddol nesaf.

Ewch i Rhestr Awduron Cymru am ysbrydoliaeth a syniadau ar gyfer siaradwyr gwadd neu hwyluswyr gweithdai ysgrifennu creadigol.